# Atodiad A

## Asesiad o'r Cynllun Gweithredu

# Cynnwys


1 **Camau Gweithredu ar Draws y Fwrdeistref** ................................................ Error! Bookmark not defined.

2 **Gwendraeth Porth Tywyn** ................................................ Error! Bookmark not defined.

3 **Llanelli**................................................ Error! Bookmark not defined.

4 **Llwchwr Aman** ................................................ Error! Bookmark not defined.

5 **Towi Isaf** ................................................ Error! Bookmark not defined.

6 **Teifi**................................................ Error! Bookmark not defined.

7 **Towi Uchaf**................................................ Error! Bookmark not defined.

8 **Gorllewinol** ................................................ Error! Bookmark not defined.

# Amcanion AAS

1. Diogelu a gwella bioamrywiaeth gan osgoi colli neu ddifrod i safleoedd bywyd gwyllt dynodedig a heb eu dynodi
2. Gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol i bawb a lleihau anghydraddoldeb iechyd
3. Diogelu a gwella ansawdd dŵr
4. Diogelu a gwella adnoddau naturiol, gan gynnwys aer a phridd
5. Cyfyngu ar newid yn yr hinsawdd, a'i addasu
6. Diogelu a gwella'r amgylchedd, y dirwedd a'r treflun hanesyddol

# 1 Camau Gweithredu ar Draws y Fwrdeistref

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| Atal | Datblygu Cynaliadwy a Strategol a Chynllunio Strategaeth Cylch Dŵr | Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio a bod SDCau yn cael eu gweithredu i reoli dŵr ffo yn ei darddle. | + | + | + | + | + | + | Mae'n bosibl y gall cam 'Datblygu Cynaliadwy a Strategol a Chynllunio Strategaeth Cylch Dŵr' sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin yn ystyried perygl llifogydd, rheoli dŵr, ac addasu i'r hinsawdd, gan leihau amlygiad i lifogydd gan hybu seilwaith gwyrdd a glas cynaliadwy, megis SDCau, a all arwain at fuddion i fioamrywiaeth, tirwedd, aer ac ansawdd pridd. Gallai hyn gefnogi iechyd a llesiant y boblogaeth drwy wella'r modd y mae ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin yn lliniaru effeithiau llifogydd ac yn eu paratoi'n well ar gyfer risgiau newid hinsawdd yn y dyfodol. Yn ogystal â hynny, mae'n bosibl y gall gweithredu SDCau effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd dŵr a phridd drwy wella'r modd y rheolir dŵr ffo.<br>Mae'n bosibl y gall cam 'Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd' wella'r ddealltwriaeth o beryglon a gwendidau llifogydd, gan alluogi penderfyniadau gwybodus i gael eu gwneud ynghylch defnydd tir a |
| | | Hirhoedledd | C-H | H | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | C | I | C | C | I | U | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| | Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd | Cynnydd Cam 2 Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro gan adeiladu ar dargedau a chamau gweithredu dogfen Cam 1 (Atkins, 2019). Diben Cam 2 yw asesu darpar safleoedd strategol yn fanylach gan ddefnyddio modelau CNC presennol neu adeiladu modelau newydd yn ôl yr angen.<br>Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Cam 2 Llanelli (WSP \| Parsons Brinckerhoff, 2018) i gefnogi'r Gorchymyn Datblygu Lleol | + | + | + | + | + | + | chynllunio seilwaith. Byddai hyn yn debygol o wella cydnerthedd hinsawdd Sir Gaerfyrddin drwy leihau'r risg o lygredd, diogelu adnoddau naturiol ac ansawdd dŵr, a diogelu amgylcheddau hanesyddol a threfol rhag difrod llifogydd. Dylai modelu effeithiol a phrofi senarios fod yn offer effeithiol ar gyfer sicrhau rhagfynegiadau a strategaethau lliniaru cywir mewn cysylltiad â pherygl llifogydd, gan sicrhau bod effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried hefyd.<br>Trwy ddefnyddio technegau cynaliadwy i reoli llifogydd, gallai cam 'Rheoli Llifogydd Naturiol' leihau dŵr ffo, atal llygredd, a chreu tirweddau cydnerth sy'n gwella'r broses o reoli perygl llifogydd yn gynaliadwy. Gellid gwella ansawdd yr aer hefyd drwy dechnegau rheoli llifogydd naturiol, drwy blannu y gellid ei gynllunio i gynyddu'r potensial hwn gymaint â phosibl. Trwy ddefnyddio strategaethau rheoli llifogydd anfewnwthiol a thechnegau ffermio adfywiol, gallai'r cam gweithredu hwn arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol ar fioamrywiaeth ac ansawdd dŵr; ac effeithiau cadarnhaol ar lesiant y boblogaeth, adnoddau naturiol, newid hinsawdd, y treflun, a'r dirwedd hanesyddol. |
| | | Hirhoedledd | C | C | C | C | H | C | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | I | I | C | C | C | I | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rheoli Llifogydd Naturiol | O ystyried natur wledig nodweddiadol y Fwrdeistref, awgrymwyd technegau Rheoli Llifogydd Naturiol fel camau gweithredu posibl ar gyfer y rhan fwyaf o gymunedau sydd mewn perygl er mwyn lleihau dŵr ffo a llifoedd brig cyrsiau dŵr yn ystod digwyddiadau mawr. Argymhellir bod cyfleoedd i gyflawni cynlluniau o’r fath ledled y Fwrdeistref yn cael eu harchwilio, gan weithredu ar raddfa y dalgylch a chydweithredu ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill, ymddiriedolaethau elusennol a thirfeddianwyr lleol i wella’r ffordd y mae’r dirwedd yn draenio drwy atgynhyrchu prosesau naturiol. Yn ogystal â phosibilrwydd o leihau perygl llifogydd, mae’n bosibl y gall hyn ddarparu buddion ehangach megis storio carbon a gwell bioamrywiaeth. Gallai | ++ | + | ++ | + | + | + | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| | | hybu technegau ffermio adfywiol, ffermio gwlypach neu adfer mawn helpu tirfeddianwyr a ffermwyr i newid i arferion sy’n helpu i leihau llifogydd heb golli unrhyw incwm. | | | | | | | |
| | | Hirhoedledd | B-H | C-H | C-H | C-H | H | B-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | U | C | C | C | C | C | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu | Cynlluniau Lliniaru Llifogydd ar Raddfa Dalgylch | Argymhellir na chaiff camau gweithredu a gynigir yn rhan o'r Cynllun Gweithredu hwn eu hystyried ar wahân ac y gallai mesurau lluosog ar draws pob ardal basn afon ddarparu budd i nifer o gymunedau sydd mewn perygl. Mae hyn yn enwedig o wir am fesurau Rheoli Llifogydd Naturiol y dylid eu hystyried ar sail dalgylch cyfan. Argymhellir cydweithio a chydweithredu ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol cyfagos er mwyn darparu dull ar sail dalgylch gwirioneddol a chyflawni canlyniadau ystyrlon. | ++ | + | ++ | + | + | + | Byddai'r cynlluniau lliniaru llifogydd arfaethedig ar raddfa dalgylch yn dilyn dull cyfannol o reoli perygl llifogydd, gan fynd i'r afael â materion yn eu tarddiad yn hytrach na dim ond mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd. Trwy adfer llwybrau llif naturiol, creu ardaloedd gwanhau, a gweithredu technegau Rheoli Llifogydd Naturiol eraill, mae'n bosibl y gallai'r cynlluniau hyn gefnogi'r broses o addasu i'r hinsawdd, a gwella bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr yn sylweddol. Mae'n bosibl hefyd y byddai'r cam gweithredu hwn yn diogelu adnoddau naturiol, y treflun a'r dirwedd hanesyddol, ac yn cyfrannu at wella llesiant y boblogaeth. |
| | | Hirhoedledd | B-H | C-H | C-H | C-H | H | B-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| | | Sicrwydd | U | C | C | C | C | C | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Parodrwydd - Rhagolygon Llifogydd ac Ymateb Brys | **Ymgysylltu â’ r cyhoedd/ymgynghori ac addysg, gan gynnwys:** Yswiriant, Cynlluniau Ymateb i Argyfwng, Cynlluniau Llifogydd Cymunedol, Cynlluniau Llifogydd Amlasiantaeth, Grwpiau Gweithredu/Ymwybyddiaeth Perygl Llifogydd Lleol, Rhybuddion a Rhagolygon Llifogydd | Mae’r camau hyn wedi eu grwpio gyda’i gilydd o dan faner Rhagolygon Llifogydd ac Ymateb Brys. Fel arall, gellid eu disgrifio fel mesurau parodrwydd neu gydnerthedd. Mae’r cynllun gweithredu hwn wedi ei baratoi i flaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer y 30 cymuned sydd â’r perygl mwyaf yn Sir Gaerfyrddin.<br>Felly, argymhellir bod y cymunedau hyn yn cael eu grymuso a’u hysbysu drwy ddeall lefel y perygl o lifogydd y maent yn ei wynebu.<br>Dylid hybu hyn drwy ymgysylltu â’r cyhoedd, ymgynghori ac addysg. Dylid sefydlu Grwpiau Gweithredu Perygl Llifogydd Lleol a sefydlu cynlluniau llifogydd brys ar lefel eiddo a chymuned. Argymhellir bod preswylwyr ym mhob cymuned sydd mewn perygl yn cofrestru â gwasanaeth rhybuddion llifogydd | +/- | + | + | + | + | + | Gallai hybu ymgysylltiad cyhoeddus, ymgynghori, ac addysg rymuso cymunedau drwy godi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd, hybu iechyd a llesiant, ac annog dulliau cydnerthedd rhagweithiol. Byddai sicrhau bod yr ymgysylltiad yn gynhwysol ac yn hygyrch yn cynyddu parodrwydd a chyfranogiad cymunedol gymaint â phosibl.<br>Gallai yswiriant rhag ofn difrod sy’n gysylltiedig â llifogydd leihau effeithiau economaidd hirdymor ar aelwydydd a busnesau. Fodd bynnag, mae’n bosibl y gallai materion fforddiadwyedd a hygyrchedd greu anghydraddoldeb iechyd a llesiant, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae’r risg yn uchel.<br>Gallai cynlluniau ymateb brys wella diogelwch a pharodrwydd cymunedol, gan sicrhau gweithredu amserol a chydgysylltiedig yn ystod digwyddiadau llifogydd. Gallai paratoi cynlluniau o’r fath ddiogelu iechyd a llesiant drwy leihau anafiadau a gofid.<br>Gallai cynlluniau llifogydd cymunedol ddarparu strategaethau lleol ar gyfer ymateb ac adfer, gan gynyddu ymwybyddiaeth a chydnerthedd y cyhoedd. Gellid addasu’r cynlluniau i risgiau cymunedol penodol, gan integreiddio gwybodaeth leol a chan alinio â strategaethau amlasiantaeth ehangach er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.<br>Gallai paratoi cynlluniau llifogydd amlasiantaeth helpu i gryfhau cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, ac asiantaethau amgylcheddol. Trwy ymgorffori rhagolygon llifogydd a data amgylcheddol amser real, gallai’r cynlluniau hyn gefnogi’r broses o addasu i’r hinsawdd a diogelu’r dirwedd gan sicrhau bod cymunedau yn derbyn rhybuddion cywir.<br>Gallai grwpiau gweithredu/ymwybyddiaeth o berygl llifogydd lleol wella ymgysylltiad â’r cyhoedd a’r broses o rannu gwybodaeth, gan helpu cymunedau i dderbyn cyfrifoldeb am ymdrechion cydnerthedd llifogydd. Mae’n bosibl y gallai’r grwpiau hyn eirioli dros atebion draenio |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CNC. Pwysleisir Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo fel cam gweithredu wedi ei dargedu ar gyfer rhai cymunedau penodol yn y cynllun, fodd bynnag, efallai y bydd unrhyw breswylwyr sy’n bryderus yn dymuno archwilio a mabwysiadu’r technegau a’r technolegau. Mewn llawer o achosion, mae ymgysylltu cymunedol gweithredol ar y gweill neu wedi ei gychwyn.<br><br>Dylid defnyddio gwersi llwyddiannus o’r mentrau hyn i lywio a helpu i sefydlu grwpiau cymunedol newydd. Mae adnodd Be Flood Ready CIWEM yn darparu cymuned arferion er mwyn helpu preswylwyr a chymunedau i fod yn fwy gwydn a cydnerth mewn achos o lifogydd. | | | | | | | cynaliadwy a dulliau rheoli llifogydd eraill a allai gefnogi ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, cydnerthedd hinsawdd a llesiant y boblogaeth.<br><br>Mae’n bosibl y gallai rhybuddion a rhagolygon llifogydd ddarparu rhybuddion cynnar hanfodol, gan ganiatáu i gymunedau ac awdurdodau gymryd camau ataliol a lleihau difrod o ganlyniad i lifogydd. Mae rhagolygon uwch yn cefnogi’r broses o addasu i’r hinsawdd drwy integreiddio patrymau tywydd, lefelau afonydd, a chyflyrau arfordirol. |
| | | Hirhoedledd | B-H | B-H | B-H | B-H | B-H | B-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | I | U | I | I | C | C | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Parodrwydd - Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | **Cynlluniau Rheoli Asedau:** Coladu a mapio asedau a data perygl llifogydd a draenio | Argymhellir bod astudiaeth fanwl ar draws y fwrdeistref yn cael ei chynnal er mwyn gwerthuso asedau CSC, paratoi mapiau, a chreu amserlenni cynnal a chadw ar gyfer yr asedau mwyaf bregus. | + | + | + | + | + | + | Gallai astudiaeth fanwl ar draws y fwrdeistref sy’n gwerthuso asedau, yn paratoi mapiau, ac yn creu amserlenni cynnal a chadw ar gyfer asedau bregus wella effeithiolrwydd y broses o reoli perygl llifogydd. Trwy sicrhau bod amddiffynfeydd rhag llifogydd yn gadarn ac wedi eu cynllunio’n briodol, gallai rheolaeth asedau helpu i ddiogelu bioamrywiaeth leol rhag llifogydd, diogelu pridd ac adnoddau dŵr, a lleihau’r risg o beryglon iechyd sy’n deillio o ddigwyddiadau llifogydd. Mae’n bosibl hefyd y gallai’r cynlluniau hyn gyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor adnoddau naturiol, a chefnogi’r broses o addasu i’r hinsawdd drwy seilwaith cydnerth. Hefyd, gallai hyn helpu i warchod yr amgylchedd hanesyddol drwy ddiogelu safleoedd treftadaeth bregus rhag difrod o ganlyniad i lifogydd, a byddai archwilio asedau’n rheolaidd a’u cynnal a’u cadw yn eu hatal rhag diraddio, gan leihau’r perygl llifogydd a allai effeithio’n negyddol ar ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, ac iechyd y cyhoedd. |
| | | Hirhoedledd | C | C-H | C-H | C-H | H | B-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | C | I | C | C | U | U | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| | Diogelu rhag llifogydd/cwrs dŵr/arolygu a chynnal a chadw asedau | Gweithgareddau busnes fel arfer ar gyfer pob Awdurdod Rheoli Risg er mwyn parhau i archwilio a chynnal a chadw’r holl asedau gan gynnwys cyrsiau dŵr, glannau, amddiffynfeydd, sgriniau brigau, cwlferi, pontydd, ceunentydd, arllwysfeydd ac unrhyw strwythurau neu asedau eraill. | + | + | + | + | + | + | Disgwylir y bydd gweithgareddau busnes fel arfer ar gyfer pob Awdurdod Rheoli Risg er mwyn parhau i archwilio a chynnal a chadw’r holl asedau hefyd yn gwella effeithiolrwydd y broses o reoli perygl llifogydd, gyda phosibilrwydd o arwain at effeithiau buddiol o’u cymharu â’r holl amcanion AAS. |
| | | Hirhoedledd | C | C-H | C-H | C-H | H | B-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | C | C | C | C | U | U | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| Adolygu | Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 | Gweithgaredd busnes fel arfer i'w gynnal gan Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn ôl yr angen. Gellid gwneud gwelliannau i brosesau drwy gydweithredu ag Awdurdodau Rheoli Risg a chymunedau eraill er mwyn deall digwyddiadau perygl llifogydd yn well ac argymell camau gweithredu. | + | + | + | + | + | + | Gallai adolygu a diweddaru strategaethau, cynlluniau a chamau gweithredu rheoli perygl llifogydd wella'r posibilrwydd y bydd mesurau atal llifogydd yn effeithiol ac yn gydnaws â'r broses o ddiogelu bioamrywiaeth. Gallai'r cam gweithredu hwn gefnogi iechyd y cyhoedd hefyd drwy leihau'r risg o beryglon iechyd sy'n gysylltiedig â llifogydd, gan gyfrannu at well llesiant corfforol a meddyliol ar draws cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n fregus. Trwy ymgorffori data diweddaredig am ansawdd dŵr, mae'n bosibl y gallai'r adolygiad helpu i atal halogiad yn ystod digwyddiadau llifogydd, gan sicrhau hefyd fod o broses o reoli llifogydd yn gydnaws â diogelu adnoddau naturiol, gan gynnwys aer a phridd. Gallai'r cam gweithredu gyfrannu at y broses o addasu i'r hinsawdd hefyd drwy wella cydnerthedd llifogydd a chefnogi seilwaith cynaliadwy a all leihau effeithiau newid hinsawdd. Hefyd, drwy adolygu a mireinio cynlluniau rheoli llifogydd, mae'n bosibl y gallai'r cam gweithredu hwn ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol, y dirwedd, a'r treflun rhag difrod o ganlyniad i lifogydd, gan warchod asedau diwylliannol a threftadaeth ar gyfer cenedlaethau y dyfodol. |
| | | Hirhoedledd | C-H | C-H | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | I | C | I | I | I | I | |
| | Gorfodi/cosbau | Gweithgaredd busnes fel arfer i'w gynnal gan Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn ôl yr angen. | +/- | +/- | +/- | +/- | +/- | +/- | Mae'n bosibl y gall cam 'Gorfodi/cosbau' arwain at effeithiau cadarnhaol neu negyddol o'u cymharu â'r holl amcanion AAS gan ddibynnu ar ba ddulliau rheoli llifogydd sy'n cael eu gorfodi a sut mae preswylwyr lleol yn cael eu cosbi, felly mae'r effaith hon yn ansicr, |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| | | Hirhoedledd | B-H | B-H | B-H | B-H | B-H | B-H | oherwydd lefel yr wybodaeth sydd ar gael ar adeg yr asesiad. |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | Mae'r camau gweithredu ar gyfer cofnodi digwyddiadau llifogydd, gwella'r broses o gasglu data, a gwell mapio a modelu yn ceisio cryfhau'r broses rheoli perygl llifogydd drwy ddarparu gwybodaeth mwy cywir a chyfoes. Byddai hyn yn helpu i ddiogelu bioamrywiaeth drwy alluogi mesurau atal llifogydd sydd wedi eu targedu sy'n lleihau'r risg o ddifrod i safleoedd bywyd gwyllt ac ecosystemau. Gyda data gwell, gellid gwella cydnerthedd gwrthsefyll llifogydd, gan leihau'r risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â llifogydd a gwella llesiant cymunedol. Trwy atal halogyddion rhag llifo i systemau dŵr, byddai'r well ddealltwriaeth o ddeinameg llifogydd hefyd yn helpu i ddiogelu ansawdd dŵr. Hefyd, mae'n bosibl y gall gwell mapio llifogydd helpu i ddiogelu adnoddau naturiol drwy lywio'r broses o leoli amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol. Gallai casglu data yn well gefnogi'r broses o addasu i'r hinsawdd drwy alluogi gwaith cynllunio mwy effeithiol ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol, gan gyfrannu at gyfyngu ar risgiau newid hinsawdd. Yn ogystal â hynny, gallai'r cam gweithredu hwn helpu i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol, y dirwedd a'r treflun drwy sicrhau bod safleoedd treftadaeth bregus yn cael eu nodi a'u diogelu rhag difrod o ganlyniad i lifogydd. |
| | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | |
| | Adolygu strategaethau, cynlluniau, mesurau, camau gweithredu | Adolygu a diweddaru dogfennau perthnasol yn ôl yr angen, hy, SFCA, cynlluniau datblygu, modelu a mapio | + | + | + | + | + | + | |
| | | Hirhoedledd | Amh. | Amh. | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | Amh. | Amh. | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | Amh. | Amh. | I | I | I | I | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cofnodi digwyddiadau llifogydd a gwella’r broses o gasglu data | Gweithgaredd busnes fel arfer fel y gall Awdurdodau Rheoli Risg barhau i gofnodi digwyddiadau llifogydd. Efallai y bydd Awdurdodau Rheoli Risg yn dymuno ystyried adolygu prosesau a dulliau o gofnodi digwyddiadau er mwyn bod yn fwy tryloyw, cyson, a chydweithredol wrth rannu data, er mwyn gwella dealltwriaeth a lleihau’r perygl y bydd digwyddiadau llifogydd yn digwydd eto. | + | + | + | + | + | + | Gallai gweithio mewn partneriaeth mewn cysylltiad â rheoli perygl llifogydd feithrin cydweithrediad rhwng Awdurdodau Rheoli Risg a thrydydd partïon, gan ymgorffori ystyriaethau perthnasol yn y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod strategaethau perygl llifogydd yn cyfrif am ffactorau y tu hwnt i arbenigedd lleol, megis bioamrywiaeth a llesiant y boblogaeth. Trwy arbenigedd ac adnoddau a rennir, mae’n bosibl y gall gweithio mewn partneriaeth wella iechyd y cyhoedd drwy feithrin ymdrechion ar y cyd i leihau risgiau iechyd sy’n gysylltiedig â llifogydd, a gallai hybu’r dasg o ddiogelu ansawdd dŵr drwy sicrhau bod mesurau rheoli llifogydd yn mynd i’r afael â risgiau llygredd a llwybrau halogi, gan eu targedu. Yn ogystal â hynny, drwy gyfuno gwybodaeth ac adnoddau o sectorau amrywiol, mae’n bosibl y gall y cam gweithredu hwn helpu i ddiogelu bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol megis aer a phridd, gan sicrhau defnydd cynaliadwy o dir a gwell gydnerthedd gwrthsefyll llifogydd. Gallai gweithio mewn partneriaeth gryfhau’r broses o addasu i newid hinsawdd hefyd drwy alluogi ymdrechion cydgysylltiedig i leihau risgiau llifogydd sy’n gysylltiedig â thywydd eithafol, gan gefnogi cydnerthedd |
| | | Hirhoedledd | C-H | C | C-H | C-H | H | C | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | C | I | C | C | U | C | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| | Mapio a modelu llifogydd yn well | Mewn rhai achosion, mae modelu hydrolig manwl, lleol wedi ei argymell fel camau gweithredu i gefnogi cymunedau penodol sydd mewn perygl. Yn fwy cyffredinol, dylai modelu hydrolig ar lefel strategol wella'r broses o asesu perygl llifogydd a helpu i gefnogi dogfennau a chynlluniau megis SFCA Lefel 2. | + | + | + | + | + | + | hinsawdd hirdymor. Hefyd, gall dulliau cydweithredol sicrhau bod camau rheoli llifogydd yn diogelu'r amgylchedd hanesyddol, y dirwedd, a'r treflun drwy gynnwys arbenigwyr treftadaeth a phreswylwyr lleol wrth gynllunio a gweithredu mesurau perygl llifogydd.<br><br>Gallai sicrhau cyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd, yn enwedig ar gyfer safleoedd dynodedig diogeledig, helpu i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu drwy alluogi mesurau atal llifogydd sydd wedi eu targedu sy'n diogelu ecosystemau a chynefinoedd sensitif. Mae'n bosibl hefyd y gall hyn ddiogelu iechyd y cyhoedd drwy sicrhau adnoddau ar gyfer prosiectau cydnerthedd gwrthsefyll llifogydd sydd yn eu tro yn lleihau'r risg o beryglon iechyd. Yn ogystal â hynny, gallai'r cam gweithredu hwn helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol, megis aer a phridd, ac ansawdd dŵr yn cael eu diogelu drwy fesurau perygl llifogydd sy'n lleihau'r effaith amgylcheddol. Trwy fuddsoddi mewn prosiectau |
| | | Hirhoedledd | C | C-H | C | C | H | C | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | C | I | U | C | A | A | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweithio mewn partneriaeth (gydag Awdurdodau Rheoli Risg a thrydydd partïon) | Er mwyn hwyluso gwell rheolaeth perygl llifogydd ledled y Fwrdeistref, bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws Awdurdodau Rheoli Risg (CSC, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol cyfagos, CNC, DCWW) yn hanfodol i'w llwyddiant. Hefyd, bydd gwybodaeth leol a chydweithrediad gan ymddiriedolaethau elusennol, preswylwyr a grwpiau gweithredu yn gwella'r broses gyffredinol o reoli perygl llifogydd. Gallai ymchwil academaidd helpu i ddarparu mwy o fewnwelediad i berygl llifogydd ledled y Fwrdeistref. Mae cyfleoedd cydweithredu posibl wedi eu nodi ar gyfer camau gweithredu awgrymedig drwy gydol y cynllun gweithredu, fodd bynnag, nid yw'r rhain yn gynhwysfawr. | + | + | + | + | + | + | cydnerthedd gwrthsefyll llifogydd, mae'n bosibl y gall y cam gweithredu hwn gyfrannu at y broses o addasu i newid hinsawdd, gan helpu cymunedau ac ecosystemau i addasu i batrymau tywydd sy'n newid a risgiau llifogydd cynyddol. Hefyd, gallai cyllid a gyfeirir at safleoedd/nodweddion dynodedig gefnogi cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol, y dirwedd, a'r treflun drwy sicrhau bod ardaloedd treftadaeth bregus yn cael eu diogelu rhag llifogydd a diraddiant.<br><br>Gallai rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i breswylwyr a pherchnogion busnesau am gynnydd rheoli perygl llifogydd wella ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltiad â'r cyhoedd, a allai gyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol drwy roi gwybod i gymunedau am risgiau llifogydd a'r mesurau sydd ar waith i'w lleihau, gan leddfu straen a hybu ymdeimlad o ddiogelwch. Ni ddisgwylir i'r cam gweithredu hwn effeithio ar fioamrywiaeth, ansawdd dŵr, adnoddau naturiol, na'r broses o addasu i newid hinsawdd. |
| | | Hirhoedledd | C-H | C | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | C | I | U | U | C | C | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| | Ffynonellau cyllid gan gynnwys y rhai âr nod o ddiogelu safleoedd dynodedig | Cydweithredu ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill er mwyn canfod ffyrdd a ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a thrydydd partïon. | + | + | + | + | + | + | |
| | | Hirhoedledd | C-H | H | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | |

| Gweithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 Bioamrywiaeth | 2 Iechyd a Llesiant | 3 Ansawdd y Dŵr | 4 Adnoddau Naturiol | 5 Newid Hinsawdd | 6 Treftadaeth a Thirwedd | |
| | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr/perchnogion busnesau am gynnydd prosiectau a gwaith rheoli perygl llifogydd | Fel estyniad i'r cam gweithredu ymgysylltu cymunedol ac addysg, ac yn ysbryd cydweithrediad â thrydydd partïon, dylai CSC ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill weithredu â gonestrwydd a thryloywder er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr/perchnogion busnes am gynnydd prosiectau a gwaith rheoli perygl llifogydd. | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + | |
| | | Hirhoedledd | Amh. | B-C | Amh. | Amh. | Amh. | C | |
| | | Gwrthdroadwyedd | Amh. | G | Amh. | Amh. | Amh. | G | |
| | | Sicrwydd | Amh. | U | Amh. | Amh. | Amh. | I | |

# 2 Gwendraeth Porth Tywyn

| | | | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | | 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’ r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’ r Dirwedd | |
| Porth Tywyn | Atal | Rheoli Llifogydd Naturiol | Gallai technegau Rheoli Llifogydd Naturiol yn nalgylchoedd Nant Dyfatty Uchaf a Nant Dwynant leihau’r llif brig a’r pwysau i lawr yr afon. Gallai ailgysylltu gorlifdir/ardaloedd storio yn y dref leihau llifogydd. | ++ | + | ++ | + | + | + | Lleolir tref drefol Porth Tywyn tuag arfordir de-ddwyreiniol Sir Gaerfyrddin. Mae ardaloedd yng nghanol y dref mewn perygl uchel o lifogydd o afonydd, ac mae’r ardaloedd arfordirol mewn perygl uchel o lifogydd o’r môr. Yn gyffredinol, minimol yw’r perygl o lifogydd dŵr wyneb.<br>Disgwylir i’r camau gweithredu ‘Rheoli Llifogydd Naturiol’ arfaethedig fod o fudd i’r holl amcanion AAS, gan leihau’r perygl o lifogydd, a chan gynnig gwelliannau sylweddol posibl i ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Mae’n bosibl hefyd y gall y cam gweithredu hwn ddiogelu adnoddau naturiol, gwella addasrwydd i newid hinsawdd yn y dyfodol mewn ffordd gynaliadwy, anfewnwthiol, a lleihau’r risg i lesiant y boblogaeth.<br>Mae’n bosibl y gall cam ‘Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau’ wella’r broses o reoli llifogydd Porth Tywyn gan wella llesiant y cyhoedd, y gallu i addasu yn y dyfodol, a diogelu ansawdd dŵr ac adnoddau naturiol. Gellir cyflawni hyn drwy risg lai o fethiannau seilwaith, hyd oes estynedig asedau hysbys, a lliniaru bygythiadau wrth iddynt godi. Byddai’r cam gweithredu hwn yn |
| | | | Hirhoedledd | B-H | C-H | C | C | H | C | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | C | I | U | C | C | C | |
| | | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Gwella gwybodaeth am asedau draenio tanddaearol a draenio ffyrdd. | + | + | + | + | + | + | |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’ r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’ r Dirwedd | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | canolbwyntio ar gynnal asedau sydd eisoes ar waith, gan leihau’r angen am amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd gyda’r posibilrwydd o effeithio’n negyddol ar y treflun, y dirwedd hanesyddol, a’r fioamrywiaeth. Mae’r lleihad posibl mewn perygl llifogydd hefyd yn cynnig diogelwch ychwanegol i fioamrywiaeth yn yr ardal. |
| | | | Hirhoedledd | C-H | H | H | H | H | C-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Hirhoedledd | C | I | C | C | C | U | |
| | | Cynlluniau lliniaru llifogydd ar raddfa dalgylch | Gan fod dalgylchoedd cymharol fach yn cyfrannu at y perygl llifogydd yn y peilot cymunedol hwn ar raddfa dalgylch, gallai Cynllun Lliniaru Llifogydd sy’n canolbwyntio ar fesurau Rheoli Llifogydd Naturiol fod yn briodol. | + | + | + | + | + | + | Byddai’r cynlluniau lliniaru llifogydd arfaethedig ar raddfa dalgylch yn dilyn dull cyfannol o reoli perygl llifogydd, gan fynd i’r afael â materion yn eu tarddiad yn hytrach na dim ond mewn ardaloedd sy’n agored i lifogydd. Trwy adfer llwybrau llif naturiol, creu ardaloedd gwanhau, a gweithredu technegau Rheoli Llifogydd Naturiol eraill, mae’n bosibl y gallai’r cynlluniau hyn gefnogi’r broses o addasu i’r hinsawdd, a gwella bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr yn sylweddol. Mae’n bosibl hefyd y gallai’r cam gweithredu hwn ddiogelu adnoddau naturiol, y treflun a’r dirwedd hanesyddol, a chyfrannu at wella llesiant y boblogaeth |
| | | | Hirhoedledd | C | C-H | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | **Argymhelliad**: dylid cryfhau geiriad y camau gweithredu o ‘gallai’ i ‘bydd’. |
| | | | Sicrwydd | U | I | I | I | C | I | **Argymhelliad:** Cyfuno technegau rheoli llifogydd Naturiol lluosog megis plannu coed, creu gwlyptiroedd, |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i'r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Dirwedd | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | a pharthau ymdreiddio pridd er mwyn cynyddu'r broses rheoli dŵr a buddion posibl i fioamrywiaeth. |
| Glan y Fferi | Atal | Rheoli Llifogydd Naturiol | Gallai technegau Rheoli Llifogydd Naturiol mewn dalgylchoedd i fyny'r afon leihau llifoedd brig a lleihau pwysau i lawr yr afon. | + | + | + | + | + | + | Fel tref glan môr gwledig bach a leolir ar aber Tywi, mae Glan y Fferi yn profi glawiad dwys a tharanau o Fôr Iwerydd ac mae'n cynnwys nodweddion tir serth yn union i mewn i'r tir, sy'n arwain at lifoedd dŵr cyflym. Mae'r dref hon mewn perygl uchel o lifogydd o'r môr, er nad yw wedi profi digwyddiadau llifogydd hanesyddol mynych, gan gyflwyno perygl isel o lifogydd dŵr wyneb. Y derbynyddion llifogydd allweddol yng Nglan y Fferi yw Gorsaf Reilffordd Glan y Fferi ac Ysgol Gynradd Glan y Fferi. |
| | | | Hirhoedledd | B-H | C | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | U | C | C | C | C | C | |
| | | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Gwerthuso Arllwysfa 1904 eto oherwydd cynnydd mewn llifogydd priffyrdd. Ymchwilio a ellid gwella capasiti y rhain. | + | + | + | + | + | + | Disgwylid i'r camau ataliol ddwyn buddion i'r holl amcanion AAS drwy leihau llifoedd brig, lleihau pwysau i lawr yr afon, a gwella'r capasiti i ddraenio arllwysfeydd. Mae pob un ohonynt yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr a'r broses o'i reoli yng Nglan y Fferi ac o'i hamgylch yn rhan o atebion natur ehangach ar gyfer rheoli amgylcheddol. Gallai arolygon draenio â theledu cylch cyfyng helpu i fonitro arllwysfeydd draenio er |
| | | | Hirhoedledd | C-H | H | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’r Dirwedd | |
| | | | Arolygon draenio â theledu cylch cyfyng | + | + | + | + | + | + | mwyn caniatáu addasiadau a gwelliannau pan fo angen. |
| | | | Hirhoedledd | C-H | H | C-H | C-H | H | C-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | |
| | Adolygu | Gweithio mewn partneriaeth | Gweithio gyda DCWW i ddatblygu uwchgynllun draenio | + | + | + | + | + | + | Trwy arbenigedd ac adnoddau a rennir, mae’n bosibl y gall gweithio mewn partneriaeth wella’r holl amcanion AAS drwy feithrin ymdrechion ar y cyd i leihau peryglon sy’n gysylltiedig â llifogydd. Mae’n bosibl y gall gweithio gyda Dŵr Cymru (DCWW) er mwyn datblygu uwchgynllun draenio wella’r broses o reoli llifogydd yng Nglan y Fferi, gan gefnogi ei gallu i wella’r holl amcanion AAS. Yn ogystal â hynny, gallai ceisio cyllid grant i werthuso perygl llifogydd yn well, gweithredu ymyriadau posibl, a gweithio gyda CNC i bwysleisio’r perygl llifogydd o Nant Ieol Cwm Mill wella’r broses o reoli llifogydd ymhellach yng Nglan y Fferi drwy wella’r gallu i gael gafael ar adnoddau a chydweithredu er |
| | | | Hirhoedledd | C-H | C-H | C-H | C-H | C-H | C-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | |

| | | | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymuned** | **Math o Weithred** | **Cam Gweithredu Posibl** | | 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’ r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’ r Dirwedd | |
| | | | Cefnogi CNC a phwysleisio’r perygl o Nant Cwm Mill (mae Nant Cwm Mill yn brif afon a CNC sydd â’r pwerau deddfwriaethol ar gyfer rheoli a chyllid). | + | + | + | + | + | + | mwyn mynd i’r afael â risgiau lleol, gyda’r posibilrwydd o gael effaith gadarnhaol ar yr holl amcanion AAS.<br><br>Gallai ymgysylltu â’r gymuned a hwyluso grwpiau gweithredu/ymwybyddiaeth o berygl llifogydd lleol fod o fudd i’r holl amcanion AAS drwy wella ymgysylltiad â’r cyhoedd a’r broses o rannu gwybodaeth, gan helpu cymunedau i dderbyn cyfrifoldeb am ymdrechion cydnerthedd gwrthsefyll llifogydd. Mae’n bosibl y gallai’r grwpiau hyn eirioli dros atebion draenio cynaliadwy a dulliau rheoli llifogydd eraill a allai gefnogi ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, cydnerthedd hinsawdd a llesiant y boblogaeth. Yn ogystal â hynny, gallai’r sesiynau ymgysylltu hyn helpu i addysgu preswylwyr lleol mewn cysylltiad ag ymyriadau unigol ar lefel eiddo, gyda’r posibilrwydd o leihau’r risgiau o newid y dirwedd leol ac atal effeithiau negyddol ar Amcan 6 yr AAS.<br><br>Mae’n bosibl y gall cam ‘Ymyriadau ar Lefel Eiddo’ wella llesiant meddyliol a chorfforol preswylwyr yng Nglan y Fferi. Er y gall gweithredu mesurau llifogydd ar lefel eiddo ddiogelu eiddo unigol a chynyddu cydnerthedd hinsawdd, gallai diffyg ymwybyddiaeth ac ystyriaeth o amgylchoedd yr eiddo waethygu effeithiau |
| | | | Hirhoedledd | C-H | C-H | C-H | C-H | C-H | C-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | |
| | | | Ceisio cyllid grant gan LlC er mwyn gwerthuso’r perygl llifogydd ymhellach ac edrych ar ddewisiadau ar gyfer ymyriadau i reoli’r risg drwy achos busnes. | + | + | + | + | + | + | |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’ r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’ r Dirwedd | |
| | | | Hirhoedledd | C-H | C-H | C-H | C-H | C-H | C-H | llifogydd yn yr ardal yn anfwriadol gan arwain at faterion megis colli rhagor o bridd, erydu, newid i’r treflun, ac effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth ac ansawdd dŵr. |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | |
| | Parodrwydd | Gwaith Cymunedol | Parhau â’n gwaith ymgysylltu cymunedol ac addysgu am risg ac ymyriadau | + | + | + | + | + | + | **Argymhelliad**: Dylid cryfhau geiriad y camau gweithredu o ‘gallai’ i ‘bydd’. |
| | | | Hirhoedledd | C-H | B-H | C-H | C-H | H | C-H | **Argymhelliad:** Dylai mesurau rheoli llifogydd naturiol, megis gwlyptiroedd, ystyried integreiddio ffyrdd a allai fod o fudd i’r gymuned. |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | **Argymhelliad:** Mabwysiadu dull bioamrywiaeth yn gyntaf wrth weithredu technegau rheoli llifogydd naturiol, megis defnyddio rhywogaethau brodorol ar gyfer adfer gwlyptiroedd er mwyn gwella bioamrywiaeth leol a chadernid i wrthsefyll rhywogaethau goresgynnol. |
| | Diogelu | Diogelu ar Lefel Eiddo | Gweithredu diogelwch ar lefel eiddo (Os oes cyllid ar gael) | - | +/- | - | - | + | +/- | |
| | | | Hirhoedledd | B-H | B | C | C | H | B-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i'r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Dirwedd | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Sicrwydd | C | U | C | C | C | U | **Argymhelliad:** Defnyddio modelau newid hinsawdd i ragweld perygl llifogydd yn y dyfodol a sicrhau bod cynlluniau cynnal a chadw yn mynd i'r afael â'r bygythiad sy'n datblygu.<br>**Argymhelliad:** Wrth ymgysylltu â'r gymuned, hwyluso trafodaeth a'r broses o rannu gwybodaeth am yr ardal leol a thechnegau rheoli llifogydd cynaliadwy er mwyn datblygu dealltwriaeth leol o reoli llifogydd ac o bosibl gweithredu syniadau a rennir.<br>**Argymhelliad**: Pan fo ymyriadau yn cael eu gweithredu ar lefel eiddo, sicrhau bod amgylchoedd yr eiddo yn cael eu hystyried. Hefyd, argymhellir sicrhau nad yw ymyriadau ar lefel eiddo yn gwaethygu effeithiau llifogydd mewn mannau eraill neu ar eiddo sydd â llai o ddiogelwch. |
| Cydweli | Atal | Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau | Creu cynlluniau rheoli asedau ar gyfer asedau allweddol ac ymgymryd ag arolygon a gwaith cynnal a chadw rheolaidd | + | + | + | + | + | + | Tref fechan ar arfordir y de ac aber Gwendraeth. Roedd Cydweli yn arfer bod yn dref diwydiant trwm gyda harbwr gweithredol, yn allforio glo caled cwm Gwendraeth. Mae'n gartref i sawl derbynnydd llifogydd allweddol megis Castell Cydweli, Gorsaf reilffordd, ac ysgolion. |
| | | | Hirhoedledd | C-H | C-H | C-H | C-H | H | C-H | |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’r Dirwedd | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | Effeithiwyd ar Gydweli gan ddigwyddiadau glawiad byr sydyn heb eu rhagolygu sy’n gorlwytho cyrsiau dŵr, draenio lleol, ac yn achosi rhagor o faterion sylweddol. Bu gwaith cymunedol sylweddol mewn chysylltiad â rheoli perygl llifogydd.<br>Gallai’r camau ataliol ar gyfer Cydweli ddarparu buddion i Iesiant a diogelwch y boblogaeth, adnoddau naturiol, ansawdd dŵr, a’r broses o addasu i newid hinsawdd oherwydd y cyfleoedd i leihau dŵr ffo a llifoedd brig mewn lleoliadau wedi eu targedu, gan helpu Cydweli i reoli ei digwyddiadau glawiad yn y dyfodol. Gallai arolygu a chynnal a chadw yn rheolaidd y strategaethau cynaliadwy a ddisgrifir wella ymhellach allu Cydweli i addasu i newid hinsawdd yn y dyfodol. Gallai’r camau gweithredu anfewnwthiol hyn helpu hefyd i ddiogelu’r amgylchedd hanesyddol, gwella cydnerthedd hinsawdd, a lleihau’r perygl llifogydd yn y treflun heb gyfaddawdu ei threftadaeth adeiledig. Mae SDCau hefyd yn cynnig cyfle i wella ansawdd dŵr a bioamrywiaeth wrth wella’r broses o reoli llifogydd yng Nghydweli, drwy ymgorffori nodweddion megis pyllau a thoeau gwyrdd. |
| | | | Sicrwydd | C | I | C | C | C | C | |
| | | Ôl-osod SDCau | Chwilio am gyfleoedd i ôl-osod SDCau mewn lleoliadau wedi eu targedu er mwyn lleihau dŵr ffo a/neu ddarparu gwanhad. | + | + | + | + | + | + | |
| | | | Hirhoedledd | B-H | B-H | C-H | C-H | H | B-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | C | I | U | C | C | C | |
| | | Rheoli Llifogydd Naturiol | Gallai chwilio am gyfleoedd am dechnegau Rheoli Llifogydd Naturiol yn y dalgylch uchaf leihau llifoedd brig a lleihau pwysau i lawr yr afon. Gallai rhai cynlluniau gwanhau mewn cymuned ar gyrion ardal drefol fod o fudd. | + | + | + | + | + | + | |
| | | | Hirhoedledd | B-H | C-H | B-H | B-H | H | B-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’r Dirwedd | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Sicrwydd | U | I | U | U | C | C | |
| | Diogelu | Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo | Chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio Cydnerthedd Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo â chyllid Llywodraeth Cymru. | +/- | +/- | +/- | +/- | + | +/- | Mae’n bosibl y gall cam ‘Ymyriadau ar Lefel Eiddo’ wella llesiant meddyliol a chorfforol preswylwyr yng Nghydweli. Er y gall gweithredu mesurau llifogydd ar lefel eiddo ddiogelu eiddo unigol a chynyddu cydnerthedd hinsawdd, gallai diffyg ymwybyddiaeth ac ystyriaeth o amgylchoedd yr eiddo waethygu effeithiau llifogydd yn yr ardal yn anfwriadol gan arwain at faterion megis colli rhagor o bridd, erydu, newid i’r treflun, ac effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth ac ansawdd dŵr. |
| | | | Hirhoedledd | B-H | B-H | B-H | B-H | H | B-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | C | U | C | C | C | U | |
| | | Cynllun Lliniaru Llifogydd | Cynllun Lliniaru Llifogydd Heol y Fferi | + | + | + | + | + | + | Gallai cam ‘Cynllun Lliniaru Llifogydd’ gael effaith gadarnhaol ar yr holl amcanion AAS drwy wella’r broses o reoli llifogydd yn yr ardal. Gellid dylunio’r cynllun gyda bioamrywiaeth mewn golwg ac ymgorffori technegau rheoli llifogydd naturiol, a allai wella ansawdd dŵr lleol hefyd drwy wella prosesau hidlo. Trwy liniaru effeithiau posibl llifogydd, gallai adnoddau naturiol lleol gael diogelwch gwell, a gallai’r cam gweithredu hwn wella cydnerthedd hinsawdd lleol hefyd. Yn ogystal â hynny, oherwydd y perygl llifogydd wedi ei liniaru, gellid gwella iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr, fel y gellid diogelu’r treflun lleol. |
| | | | Hirhoedledd | B-H | B-H | B-H | B-H | H | B-H | Gallai ymgysylltu â’r gymuned a hwyluso grwpiau gweithredu/ymwybyddiaeth o berygl llifogydd lleol fod o |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’r Dirwedd | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | fudd i’r holl amcanion AAS drwy wella ymgysylltiad â’r cyhoedd a’r broses o rannu gwybodaeth, gan helpu cymunedau i dderbyn cyfrifoldeb am ymdrechion cydnerthedd gwrthsefyll llifogydd. Mae’n bosibl y gallai’r grwpiau hyn eirioli dros atebion draenio cynaliadwy a dulliau rheoli llifogydd eraill a allai gefnogi ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, cydnerthedd hinsawdd a llesiant y boblogaeth. Yn ogystal â hynny, gallai’r sesiynau ymgysylltu hyn helpu i addysgu preswylwyr lleol mewn cysylltiad ag ymyriadau unigol ar lefel eiddo, gyda’r posibilrwydd o leihau’r risgiau o newid y dirwedd leol ac atal effeithiau negyddol ar Amcan 6 yr AAS.<br><br>Mae’n bosibl y gall cam ‘Cyrchu Cyllid’ gael effaith gadarnhaol ar yr holl amcanion AAS os gellir caffael y cyllid yn llwyddiannus. Mae hyn oherwydd rhagor o gyllid sy’n caniatáu i CSC barhau â’i waith achos busnes, gwerthuso, a dadansoddi dewisiadau, a allai helpu i leihau effeithiau andwyol llifogydd yng Nghydweli yn y dyfodol a gwella’r broses gyffredinol o reoli llifogydd.<br><br>**Argymhelliad**: Er mwyn diogelu a gwella bioamrywiaeth, sicrhau bod y broses o reoli a chynnal a |
| | | | Sicrwydd | C | C | C | C | C | C | |
| | Parodrwydd | Gwaith Cymunedol | Parhau i gefnogi’r grŵp llifogydd cymunedol. | + | + | + | + | + | + | |
| | | | Hirhoedledd | C-H | B-H | C-H | B-H | H | C-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | Amcan AAS: 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i’r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a’r Dirwedd | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | chadw asedau allweddol yn cynnwys ystyriaethau ecolegol wrth gynnal a chadw draenio neu isadeiledd. **Argymhelliad:** Sicrhau bod y broses o ôl-osod SDCau yn targedu derbynyddion llifogydd allweddol er mwyn cyflawni cymaint o fuddion â phosibl i’r gymuned. **Argymhelliad**: Cyfuno SDCau ag adnoddau cyhoeddus/mannau megis ardaloedd adloniant i gael effaith ehangach ar y gymuned. **Argymhelliad:** Creu cyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn gweithgareddau adfer gan ystyried y perygl llifogydd yn eu hardal leol. **Argymhelliad**: Cynnig addysg i’r cyhoedd ar ddefnydd priodol a chynnal a chadw cydnerthedd gwrthsefyll llifogydd eiddo er mwyn sicrhau cymaint o fuddion â phosibl a lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y treflun a’r amgylchedd naturiol. **Argymhelliad**: Pan fo ymyriadau yn cael eu gweithredu ar lefel eiddo, sicrhau bod amgylchoedd yr eiddo yn cael eu hystyried. Hefyd, argymhellir sicrhau nad yw |
| | Adolygu | Cyrchu Cyllid | Cais am gyllid Llywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen ag achos busnes a gwerthuso’r risg a’r dewisiadau.<br>Os yw’n llwyddiannus gyda chynigion grant Llywodraeth Cymru, gall CSC barhau â’i waith achos busnes, gwerthuso a dadansoddi dewisiadau. | + | + | + | + | + | + | |
| | | | Hirhoedledd | B-H | B-H | B-H | B-H | H | B-H | |

| Cymuned | Math o Weithred | Cam Gweithredu Posibl | Disgrifiad | 1. Bioamrywiaeth | 2. Iechyd a Llesiant | 3. Ansawdd Dŵr | 4. Adnoddau Naturiol | 5. Addasu i'r Hinsawdd | 6. Yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Dirwedd | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | ymyriadau ar lefel eiddo yn gwaethygu effeithiau llifogydd mewn mannau eraill neu ar eiddo sydd â llai o ddiogelwch.<br>**Argymhelliad:** Wrth ymgysylltu â'r gymuned, hwyluso trafodaeth a'r broses o rannu gwybodaeth am yr ardal leol a thechnegau rheoli llifogydd cynaliadwy er mwyn datblygu dealltwriaeth leol o reoli llifogydd ac o bosibl gweithredu syniadau a rennir. |
| | | | Sicrwydd | I | I | I | I | I | I | |
| Gors-las | Atal | Ôl-osod SDCau | Chwilio am gyfleoedd i gyllido a chydweithredu â phartneriaid er mwyn ôl-ffitio SDCau mewn strydlun i leihau dŵr ffo a darparu gwanhad. | + | + | ++ | + | + | + | Ardal trefol a busnes sy'n datblygu'n gyflym, oddi ar yr A40 – sy'n ardal strategol bwysig, yw Gors-las. Mae'n uchafbwynt gyda glawiad blynyddol uchel, ac mae'n gyfagos i gymuned Crosshands yn nalgylch Llwchwr Aman.<br>Disgwylid i gam 'Ôl-osod SDCau' leihau'r perygl llifogydd a darparu buddion i lesiant y boblogaeth, bioamrywiaeth, adnoddau naturiol, derbynyddion allweddol a chydnerthedd hinsawdd drwy leihau dŵr ffo a'r posibilrwydd o gynnwys gwelliannau i seilwaith gwyrdd a glas yn yr ardal. Gallai'r cam gweithredu llai ymwthiol hwn helpu hefyd i ddiogelu'r treflun a gall |
| | | | Hirhoedledd | B-H | B-H | C-H | C-H | H | B-H | |
| | | | Gwrthdroadwyedd | G | G | G | G | G | G | |
| | | | Sicrwydd | C | I | U | C | C | C | |
| | Atal | Rheoli Llifogydd | Archwilio atebion Rheoli Llifogydd Naturiol a dewisiadau cyllido yn yr ardal | + | + | + | + | + | + | |

| | | | Disgrifiad | Amcan AAS | | | | | | Arfarniad ac Argymhellion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
